'STEDDFOD 2000 – I'R GAD!

CROESO I EISTEDDFOD GENEDLAETHOL FRENHINOL ZENITH DATA SYSTEMS 2000 (mewn cydweithrediad â S4C a National Power)

PUMP AWGRYM I WEDDNEWID YR EISTEDDFOD – "SIT TIGHT AND LISTEN CAREFULLY, BEDWYR!"

'SHOOT-OUT'

1/ I annog y werin/proletariat i fynychu'r Eisteddfod dylid cyflwyno'r goron i ennillydd cystadleuaeth 'Beat theGoalie' lle fydd rhaid i'r bardd buddugol guro'r Archdderwydd mewn 'penalty shoot out'. Awgrymwn, er mwyn gwneud y dasg yn anoddach ac ychydig yn fwy diddorol, y dylid urddo Neville Southall yn Archdderwydd.

S.T.G. YN DWEUD "NA" I'R CORAU MEIBION

2/ Gwahardd Corau Meibion a chynnal cystadleuaeth Corau Cefnogwyr Pêl-droed h.y. Cor Meibion y Bangor Warfare Squad yn canu 'You'll never Make the Station' ar y don 'Llef'– yn naturiol.



CYFLE I'R 'BWCIS'!

3/ Cyflwyno 'on-field-betting'. Bydd y bwcis yngosod odds ar y math o fardd sy'n debygol o ennill h.y. 3-1 a r y Bardd Barfog, evens ar rhywun sydd wedi dioddef yn enbyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn enwedig profedigaeth, 9-4 rywun i son am Gymru'n marw, 33-1 ar y gerdd trendi sy'n sôn am gyffuriau a 'phobl ifanc'.

4/ Noddi'r cystadleuthau:-
Coron 'Crown Paint'
Cadair bîn MFI
Gwobr Corau Meibion Strepsil
Rhiban Glas Walls Ice Cream

5/ Er mwyn hwyluso bywyd yr eisteddfotwr, hynny yw efe/hi sy'n cael ei lesgu gan bydew'r maes awgrymwn y dylid gosod Astro Turf.

Wel dyna awgrymiadau bwrdd golygyddol STG at ddiwygio'r 'Steddfod, er wrth gwrs fe gedwir at yr hen draddodiadau oesol e.e. mai dim ond Brymis Cocnis neu Scousers sy'n cael rhedeg y stondinau cwn poeth (sic.) Sy'n fy atgoffa o jôc Gymreig diwedd yr 1980au, "beth yw'r gwahaniaeth rhwng dyn sy'n byw yn Abersoch, Pen Llŷn a dyn sy'n byw yn Nhalyllychau, Shir Gâr?......Mae'r dyn sy'n byw yn Abersoch yn Scouser a'r dyn sy'n byw yn Talyllychau'n dod o Lundain."

S.T.G. – "NID FFANSÎN YN UNIG, OND FFORDD O FYW!"

Y BEIRNIAD RHYWIOL

Y CHWYLDRO FFRENGIG - "GWAWRIODD OES RHYDDID"

"BLISS IT WAS THAT DAY TO BE ALIVE". DYNA SUT Y DISGRIFIODD Y BARDD SEISNIG WILLIAM WORDSWORTH DDYFODIAD Y CHWYLDRO FFRENGIG AR FAI 5ed, I789. CHWYLDRO A DDYWEDODD ARWEINYDD COMIWNYDDOL CHINA, MAO TSE TUNG OEDD MOR ALLWEDDOL I DDATBLYGIAD AC HANES Y BYD, FEL YR OEDD HYD YN OED YN YR I970au YN RHY FUAN I LLWYR AMGY-FFRED EI BWYSIGRWYDD.

Newidiwyd Ewrop yn gyfangwbl gan y digwyddiad hwn. Mae STG felly am geisio esbonio ta rddiad y CHWYLDRO FFRENGIG a son am rôl un grwp yn y corwynt hwn a siglodd Ewrop yn gyfangwbl.

Yn ystod blynyddoedd peryglus ac llawn amheuaeth y 'Dychryn' (y Terror 1792-1793) chwaraeodd y Sans Cul ottes ran beryglus o allweddol.yn eu rôl i achub 'ein' Chwyldro, gan lwyddo erbyn y diwedd i hafalu eu hunain â'r 'Digwyddiad Mawr' a dod yn apitomi o 'reolaeth dorfol' (mob rule).

Dechreuodd gyda'r hyn a elwir yn 'Revolte Nobilairie' pan drodd bonedd Ffrainc ar eu brenin a mynnu mwy o hawliau, a mwy o lais yng ngweinyddiiad Ffrainc. Symudodd pethau'n gyflym ar ôl hyn. Daeth y drydedd stad (h.y. unrhywun sy'n neb - dim yn frenin, dim yn offeiriad, dim yn berchen ar 'loa-dsa' dir) y n fwy gweithgar. Wedyn, dechreuodd y Chwyldro go iawn, gyda 'r bobl yn gweithredu. Ar y I4eg o Orffennaf, I789 cipiwyd y 'Bastille' gan dorf o bobl gyffredin.

Ystyr Sans Culottes yn ddigon diniwed yw 'heb drowsus' (chi'n gwbod fel yn y trwsusau baggy penglum ~~mae~~ menywod, +MAMAU Marks & Sparcks yn eu gwisgo). Mae'n amlwg fod culottes yn trendi yn Ffrainc ar y pryd (wel jyst edrychwch ar luniau'r cyfnod neu gwisg 'draddodiadol' bechgyn Cymru sy'n dyddio o tua'r un amser) ac mai term gwawd neu term o falchder y bobl eu hunain yn eu tlodi a'i diffyg pa rch at ffug barchusrwydd, yw gwraidd yr enw.

Daeth y Sans-culottes i chwarae rhan allwe-ddol yng nghwrs Chwyldro Ffrainc, gan ymyrryd ar adegau allweddol. Mewn 'cynghrair' a'r Montagnards (Robespierre, Saint Just, Marat a phobl'cymhedrol' tebyg) buont yn gyfrifol am ddechrau a gweithredu y 'Dychryn' -TERROR.

"RHYDDID I DDINISTRIO 'UNBENIAETH BRENHINOEDD'"

"RHAID SEFYDLU RHYDDID TRWY DRAIS

A DAETH YR AMSER AM 'UNBENIAETH'"

Galwodd Gwyn Alf Caerfyrddin yn dre sans culottaidd ac hawdd gweld hynny mewn ffordd, gan mai gweithwyr, artisaniaid bychain a mân grefftwyr oedd cefdir y mwyafrif ohonynt. Paris y brifddinas oedd eu cadarnle ac mae'r ddwy ffactor yma yn hanfodol wrth ddeall eu rhesymeg.

I fod yn onest roedd ganddynt foesoldeb digon dodgy ar brydiau a cawn y syniad fod ychydig o wybodaeth yn beth mwy peryglus na dim gwybodaeth o gwbl. Credent yn gryf yn y syniad o 'anrhydedd'- a nhw oedd y bobl oedd yn diffinio Anrhydedd a Moesoldeb a nhw oedd yn ei weithredu hefyd (ychydig fel y glowyr yn Bucharest, Rwmania yn ddiweddar?). Cytunent â'Monsieur Mad', sef Saint Just un o'r Tri Mawr oedd yn rheoli Ffrainc i bob pwrpas yn ystod y cyfnod gwaedlyd hwn. Er ond yn 25 roedd Saint Just yn foi creulon iawn hyd yn oed iw gymharu â safonnau uffernol y Dychryn- boddodd 2,000 o'i wrthwynebwyr yn y Loire rhewllyd. A pan ddatganodd Saint Just "Rhaid sefydlu Rhyddid trwy drais , a daeth yr amser am Unbenniaeth Rhyddid, a dinistrio Unbenniaeth y Brenhinoedd" roedd y Sans Culottes yn ei gymeryd o ddifri. Yn wir roedd yr hen Saint yn hoff o'r termau'1984'aidd yma a nodwch blant pa mor debyg ydynt i dermau fel, "Unbenniaeth y proletariat" a ynganwyd gan MARX (oedd ei hun, fel y S.C.s â barn eitha diraddiol ar adegau o'r werin cefn gwlad). Am y rheswm yma ac er mwyn sicrhau cyflenwad bwyd digonnol yn enwedig ŷd i'r dinasoedd a Paris gan fwya, yr ymunodd cymaint ohonynt a'r Armées Révolutionnaire (y byddinoedd chwyldroadol) a dyma pam hefyd i gymaint ohonynt ymroi mor fileinig o ymroddgar i'r Dychryn.

Y SANS-CULOTTE NONWENNODOL-'UNTRENDY'

Saint Just - Monsieur Mad || ST.4. d/o 'Y MANS' STRYD NEWYDD LLANBEDR P.S. DYFED. (0570) 422.597. || HOFFEM DDIOLCH I U.C.A.C. AM EU CYMORTH Â'R RHIFYN YMA AC AR

O.N. MAE NA ANGHYTUNDEB GOLYGYDDOL FAN HYN. O LEIA' ROEDD Y 'SANS-CULOTTES' YN CREU MEWN CYMANNDER. "IT WAS IN BLOOD, TERROR AND TOTAL WAR THAT DEMOCRACY AND DEMOCRATS ENTERED EUROPEAN HISTORY." - GWYN ALF ©

Roedd y bois, a bois oeddynt gan fwya', yn casau'r clericiad ond wedyn roedd bron a bod pawb yn casau'r clericiaid, heblaw'r clericiaid a'r werin datws ddwl geidwadol. Roedden nhw hefyd yn ultra- cydraddol (egalitarian). Rhaid oedd bwydo y bobl. Credent felly mae braint , a dyletswydd oedd eiddo. ac nid hawl absoliwt.

Nid pobl unigolyddol oedd y S.C.s. Roeddent yn gweithredu ac yn meddwl'en massé' fel dywedodd un hanesydd. Roedd ewyllus y bobl fel y weriniaeth yn un ac yn anrhanadwy.

"RWYF I'N UN O'R WERIN DATWS DDWL, GEIDWADOL"

FOTES I DROST Y BRENIN A'R EGLWYS YN 1849

Roedden nhw yn ddrwgdybus o bobl mwy galluog galluog, mwy cyfoethog, oedd yn gwiago'n well na nhw- ac oherwydd hyn wnaethon nhw fabwysiadu seicoleg "ymosod yw'r ffordd orau orau o amddiffyn" a ychwanegodd at awyrgylch beryglus, gwallgof y Dychryn.

¿MAE STEVE EAVES Y CAEL DIGON, YDYCH CHI?

BWLCHLLAN!!

CAWSOM AFAEL AR Y DR. JOHN 'BWLCHLLAN' DAVIES, AWDUR Y BEIBL NEWYDD AR HANES CYMRU AC ERBYN HYN CYN-DDARLITHYDD HANES CYMRU YN C.P.C. ABERYSTWYTH, YN CIWIO Y TU FÂS I ARCHFARCHNAD YNG NGWLAD PWYL. GAN MAI CIWIO AM SELSIG YR OEDD GWYDDWN FOD 'DA NI RYW AWR I AROS, FEL MAE'N DIGWYDD, JYST DIGON O AMSER I GAEL CYFWELIAD ECSGLIWSIF Â 'SEREN TAN GWMWL'. DYMA OFYN FELLY I'R DR. JONH 'JOHN' DAVIES Y CWESTIYNNAU CANLYNOL.....

STG: 'RYDYCH WEDI 'SGWENNU 'BLOCKBUSTER'. YN EICH LLYFR RY'CH YN CYFEIRIO AT DAVID DAVIES LLANDINAM. ONID POBL FEL D.D.Ll.YW'R UNIG BOBL ALL FFORDDIO PRYNU'R LLYFR? ONID YW £30 AM LYFR YN CYFYNGU 'ACCESS' I WYBODAETH? WNAETHOCH CHI ANELU'R LLYFR AT GYNULLEIDFA ARBENNIG?

DR.JD."Wel, dyw talu £30 ddim cymaint a 'ny. Mae myfyrwyr yn gwario £30 ar 4-packs o 'Felifoel' mewn wythnos ac mae llyfr Glanmor Williams sy'n llai na'n un i'n costio £40. Wedi dweud hynny mae syniad ar droed i gyhoeddu fersiwn clawr papur, fydd cryn dipyn yn rhatach.

STG: WRTH EDRYCH AR EIN HANES DIWEDDAR GALL RHYWUN OND TEIMLO FOD Y FFAITH I'R GYMRAEG DDOD YN'IAITH Y NEFOEDD' AI CHYPLYSU GYMAINT Â CHREFYDD ARWAIN AT LLEIHAD YN EI HYGREDEDD AI DEFNYDDOLDEB WRTH I BWYSIGRWYDD CREFYDD DDIRYWIO.E.E. YNG NGWYNEB TWF SOSIALAETH NEU DIWYLLIANT EHANGACH SEISNIG H.Y. OEDD Y GYMRAEG YN CAEL EI GWELD YN ORMODOL FEL IAITH Y CAPEL?

ARLYWYDD YR ARIANNIN, - CARLOS MENEM - FFRIND PERSONOL I 'JOHN' DAVIES "O NI'N COL. 'DA FE"

DR.JD. "Cwestiwn craff iawn, mae'n beryglus i uniaethu diwylliant â grwp cyfyngiedig o bobl ac o bosib gall ddigwydd eto- rhywbeth peryglus. Rwy'n pryderu weithiau fod gormod yn mynd mewn i'r cyfryngau, wyddoch chi rwy'n dal i feddwl fod athrawon yn bwysicach i les y gymdeithas na ymchwilwyr Radio Cymru.

Mewn amryw i le lle roedd y Gymraeg ar drai, y capel oedd yr unig le lle siaradwyd y Gymraeg. Gellid dadlau mae'r un safbwynt oedd yn eu cadw nhw yn gapelwyr oedd eu bod yn Gymry Cymraeg. Rwy'n cofio o'm mhrofiad fy hun yn ystod y 'Swinging Sixties' un peth arall i wrthryfela yn erbyn oedd y Gymraeg i lawer o bobl.

S.T.G :FELLY A WNAETH SOSIALAETH CHWARAE RHAN BWYSIG YN NIRYWIAD YR IAITH? FEL NODWYD GAN UN AWDUR EINGL GYMREIG (GWYN THOMAS) "WHAT'S WELSH FOR DIALECTICAL MATERIALISM?"

Do a naddo. Mae Robin Oakey wedi son am y 'naive cosmopolitanism'- yr agwedd bod bod yn wrth-Gymreig yn gyfystyr a bod yn fyd-eang eich amca nion, roedd pobl yn meddwl eu bod nhw yn 'Internationalist' ond doedden nhw ddim.



DYW RHAI PETHAU BYTH YN NEWID

DA IAWN ALAN - BETH AM ROI CAIS ARALL AR YR UN AM SAESON BACH YN GWLYCHU'U HUNEN

Roedd yn gamddealltwriaeth hanesyddol eitha' trist bod arweinwyr y mudiad llafur yn ddall i hawliau'r Gymru Gymraeg.

S.T.G.: WRTH EDRYCH YN ÔL MAE'N YMDDANGOS BOD POBL YN Y GORFFENNOL YN WEITHGAR, OND Y GWIR AMDANI YW BOD Y RHAN FWYAF O BOBL YN APATHETIG (FEL YN EIN CYFNOD NI) ONI DDYLID FELLY ASTUDIO HANES APATHI?

Rown i yn darllen y 'Rhondda Leader' oedd yn sôn am Derfysg Tonypandy, 1911, ac roedd mwy o bobl y n gwylio gornest bocsio nag oedd yn terfysgu. Pa un felly oedd bwysicaf i bobl ar y pryd? Efallai y dylid dilyn cyngor Dai Smith ac ysgrifennu 'The History Of Nail Biting'. Fe allwch chi golli golwg ar bynciau sydd o ddiddordeb o ddydd i ddydd i bawb.

S.T.G.:BETH YW BOD YN GYMRAES/GYMRO YN NGHYMRU Y 1990au? BETH YW EIDENTITI CYMREIG?

Mae R.S.Thomas yn diffinio Cymreictod yn nhermau pobl sy'n medru siarad Cymraeg, ond mae hwn yn ddisgrifiad annigonnol yn fy marn i.Mae Cymry di-Gymraeg yn dibynnu ar fodolaeth Cymry Cymraeg er mwy n eu hunaniaeth. Mae Dai Smith yn diffinio Cymreictod yn ôl nodweddion y Maes Glô, ond mae'r diffiniad hwn yn cau allan Bae Colwyn, Abergele, ac yn y blaen. Gellir diffinio Albandod mewn termau cyfreithiol i raddau helaeth: yr elfen sy'n rhoi undod i'r Saeson yw eu hiaith. Dyw'r un o'r ddau yn gymwys i Gymru.

'MAE'R CYMRY DI-GYMRAEG YN DIBYNNU AR FODOLAETH CYMRY CYMRAEG ER MWYN EU BODOLAETH'

S.T.G:YCHYDIG FLYNYDDOEDD YN ÔL FE LIWIOCH CHI EICH GWALLT YN BIWS. YDYCH CHI YN WYNEBU CRISIS CANOL OED?

DR. J.D.: NA, dwi heb gyrraedd canol oed eto.

ARGRAFFWYD GAN HYWEL EVANS, DINBYCH · (074571) 2570 ·